



Gwasanaeth gwybodaeth i gleifion
Ysbyty Brenhinol Plant Bryste
Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru

Cludiant Acíwt i Blant Cymru a Gorllewin Lloegr (WATCH)



Respecting everyone
Embracing change
Recognising success
Working together
Our hospitals.

WATCH
Wales & West Acute
Transport For Children

Above + Beyond ★
For Patients. For Health. For Bristol.

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth i chi am y gwasanaeth Cludiant Aciwt i Blant Cymru a Gorllewin Lloegr (WATCH). Bydd hefyd yn rhoi rhywfaint o wybodaeth i chi am Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru ac Ysbyty Brenhinol Plant Bryste.

Gwasanaeth WATCH

Dim ond mewn nifer fach o ysbytai yn y DU y darperir gofal dwys pediatrig (i blant) ac mae'n faes gofal arbenigol iawn. Y ddau ysbyty rhanbarthol i blant yw Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru yng Nghaerdydd (CHW) ac Ysbyty Brenhinol Plant Bryste (BRHC), sef yr ysbyty dynodedig yn Ne-orllewin Lloegr.



Mae'r gwasanaeth WATCH wedi'i leoli yng Ngwasanaethau Meddygol Brys Ambiwylans Bryste. Maent yn darparu tîm symudol sy'n gallu mynd i unrhyw ysbyty yn rhanbarth De-orllewin Lloegr a Chymru gan ddarparu gofal i unrhyw blant sy'n ddifrifol wael. Unwaith y byddwch yn eich ysbyty lleol, bydd y tîm yn asesu ac yn sefydlogi eich plentyn cyn ei drosglwyddo i CHW neu BRHC i gael gofal dwys parhaus.



Mae tîm cludiant WATCH yn cynnwys tîm penodedig o nyrsys a meddygon sy'n meddu ar amrywiaeth o sgiliau a phrofiad helaeth.

Prif nod y tîm yw darparu lefel ragorol o ofal o'r funud y byddant yn gwybod am eich plentyn, drwy gydol y broses drosglwyddo, hyd nes ei fod yn gysurus yn yr uned gofal dwys pediatriig (PICU) naill ai yn CHW neu BRHC.

Mae gan y gwasanaeth ei ambiwlans ei hun, a gaiff ei rannu â'r Gwasanaeth Cludo Gofal Dwys i'r Newydd-anedig, sydd wedi'i leoli ym Mryste hefyd.



Ambiwlans WATCH



Yr Ambiwlans Awyr i Blant

Monitro a chyfarpar

Mae gan dîm cludo WATCH lawer o gyfarpar sy'n cael ei gario i bob man. Mae hyn yn golygu bod y tîm yn gallu darparu'r holl ofal y gallai fod ei angen ar eich plentyn drwy gydol y broses sefydlogi a throsglwyddo.

Efallai y bydd eich plentyn eisoes wedi'i gysylltu â monitor – peiriant sy'n cofnodi curiad calon a phwysedd gwaed eich plentyn, er enghraifft. Bydd y tîm yn trosglwyddo'r broses fonitro hon i'w monitor cludadwy yn barod ar gyfer y daith. Mae'r monitor yn mesur curiad y galon, pwysedd gwaed, tymheredd y corff, cyflymder anadlu a faint o ocsigen sydd yng ngwaed eich plentyn.



Peiriant anadlu



Monitor



Pympiau trwytho



Babypod

Os bydd angen help anadlu ar eich plentyn, efallai y bydd angen peiriant anadlu arno. Mae gan y tîm ddau fath o beiriant anadlu; mae'r ddau yn fach ac yn gludadwy. Os bydd angen yr help hwn ar eich plentyn, bydd angen tiwb arno sy'n mynd i lawr y corn gwddf drwy ei drwyn neu geg. Gelwir hwn yn diwb ET. Bydd eich plentyn wedi'i lonyddu drwy gydol y broses drosglwyddo.

Efallai y bydd tiwbiau eraill wedi'u cysylltu i'ch plentyn hefyd. Yn aml, caiff tiwb nasogastrig (NG) ei basio drwy'r trwyn i'r stumog er mwyn iddo allu cael llaeth neu feddyginiaethau o hyd, a gellir gwacáu'r stumog o aer os bydd angen.

Efallai y bydd tiwbiau eraill yn mynd i mewn i'r gwythiennau i roi meddyginiaethau, neu i mewn i rydweli er mwyn gallu mesur y pwysedd gwaed yn gywir, ac er mwyn cymryd samplau gwaed yn hawdd.

Mae'n hynod bwysig i'r tîm bod eich plentyn yn gyfforddus, yn ddiogel, nad yw'n ofidus ac nad yw'n gwybod beth sy'n digwydd. Felly, rhoddir cyffuriau lleddfu poen yn rheolaidd, ynghyd â thawelydd i'w gadw'n gysglyd. Gellir rhoi meddyginiaethau eraill hefyd (cyfryngau ymlacio'r cyhyrau), a fydd yn atal eich plentyn rhag symud. Gwneir hyn am nifer o resymau, ond yn bennaf er diogelwch yn ystod y daith. Mae effeithiau'r meddyginiaethau hyn dros dro yn unig.



Gwybodaeth ddefnyddiol arall

Bydd hwn yn debygol o fod yn amser gofidus iawn i chi, a bydd y tîm yn gwneud popeth o fewn eu gallu i'w wneud mor ddidrafferth â phosibl. Byddant yn fwy na pharod i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Fodd bynnag, weithiau bydd angen asesu, trin a sefydlogi eich plentyn cyn rhoi gwybodaeth i chi. Gofynnwn i chi fod yn amyneddgar gyda'r staff – bydd rhywun yn rhoi gwybodaeth i chi yn rheolaidd, a bydd y tîm yn siarad â chi cyn gynted ag y gallant.

Allai fynd gyda fy mhlentyn?

Gallwch – bydd un o'r tîm yn trafod hyn gyda chi yn fanylach cyn gadael yr ysbyty lleol. Os bydd eich plentyn yn cael ei gludo yn yr Ambiwylans Awyr i Blant, efallai na fydd modd i riant deithio oherwydd prinder lle. Bydd angen i'r Ambiwylans Awyr i Blant wybod eich pwysau ar adeg cynllunio'r daith.

Os ydych yn gyrru i Fryste neu Gaerdydd, gofynnwn yn garedig i chi beidio â cheisio dilyn yr ambiwlans, oherwydd gallai fod yn teithio ar gyflymder uchel ac mae'n bosibl y gallai fod yn beryglus i chi ac i'ch plentyn sydd gyda'r tîm cludo. Os gwelwch fod ein cerbyd wedi stopio wrth ymyl y ffordd, peidiwch â thynnu i mewn, ond parhewch â'ch taith.

Unwaith y byddwch yn cyrraedd yr ysbyty ac y bydd eich plentyn yn gysurus yn y PICU, cewch y cyfle i siarad â'r nyrsys a'r meddygon sy'n gofalu am eich plentyn am y cynlluniau ar gyfer ei ofal parhaus. Bydd y nyrsys a'r meddygon yn eich helpu cymaint ag y gallant, ond os bydd angen help pellach arnoch neu bobl eraill yr hoffech siarad â hwy, gall y staff yn y PICU drefnu hyn ar eich cyfer.

Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru

Parc y Mynydd Bychan
Caerdydd
CF14 4XW

Ffôn PICU: 029 2074 3282



Mae'r uned gofal dwys pediatriig wedi'i lleoli ar y 3ydd llawr (y llawr Seren/Star).

O'r M4 (gorllewin) a'r A470 (gogledd)

1. Dilynwch yr M4 (o'r gorllewin) / A470 (o'r gogledd) hyd nes cyfnewidfa'r M4/A470 yn Coryton.
2. Dilynwch yr arwyddion ffordd i Ganol Dinas Caerdydd, gan deithio ar hyd y ffordd ddeuol am tua dwy filltir hyd nes i chi gyrraedd cylchfan fawr.
3. Wrth y gylchfan, arhoswch yn y lôn chwith, ac ewch i gyfeiriad yr A48 Casnewydd (bydd arwyddion ar gyfer yr ysbyty o'r man hwn ymlaen).
4. Mae'r fynedfa i Ysbyty Athrofaol Cymru ar y ffordd ymuno â'r A48.

O'r M4 (dwyrain)

1. O Bont Hafren (Bryste), parhewch ar yr M4 i gyfeiriad y gorllewin am tua 23 milltir.
2. Gadewch yr M4 ar gyffordd 29 i ymuno â'r A48(M).
3. Dilynwch yr A48(M) hyd nes y bumed gyffordd. Mae ffordd ymuno benodedig ar gyfer safle Ysbyty Athrofaol Cymru.
4. Wrth y goleuadau traffig, trowch i'r dde i safle'r ysbyty.

O'r M5 (gogledd)

1. Gadewch yr M5 (gogledd) wrth Gyffordd 18A, yna ymunwch â'r M49.
2. Ar y gylchfan, cymerwch yr allanfa gyntaf ac ymunwch â'r M4.
3. Gadewch yr M4 ar gyffordd 29 i ymuno â'r A48(M).
4. Dilynwch yr A48(M) hyd nes y bumed gyffordd. Mae ffordd ymuno benodedig ar gyfer safle Ysbyty Athrofaol Cymru.
5. Wrth y goleuadau traffig, trowch i'r dde i safle'r ysbyty.

Parcio i geir


Mae Ysbyty Plant Cymru wedi'i leoli ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru (gweler y map ar y dudalen nesaf). Unwaith y byddwch ar y safle, mae lleoedd parcio i geir a pharcio i'r anabl ar gael yn y maes parcio aml-lawr. Mae cyfraddau gostyngol ar gael i rieni a gofalwyr o swyddfa'r maes parcio ar lawr daear y maes parcio aml-lawr.

I gyrraedd prif fynedfa'r ysbyty plant o'r maes parcio aml-lawr, croeswch y ffordd ar draws y groesfan pelican wrth allanfa cerddwyr y maes parcio. Dilynwch y llwybr cerdded dan do, gan basio'r llyn a'r ffynnon ar y dde. Yn hytrach nag anelu am y prif gyntedd, cadwch i'r dde ac ewch i fyny'r grisiau glas, a chroesi'r ffordd i'r ysbyty plant.

Llety

Mae llety ar gael yn yr ysbyty, er mwyn i chi allu aros gyda'ch plentyn. Rheolwr llety'r ysbyty sy'n trefnu hyn. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau lle i chi, ond bydd rhestr aros yn aml. Rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw y tu allan i ardal Caerdydd.





Ysbyty Brenhinol Plant Bryste

Upper Maudlin Street
Bryste
BS2 8BJ

Ffôn PICU: 0117 342 8377



Mae'r uned gofal dwys pediatriig wedi'i lleoli ar lefel 4 (y llawr melyn).

O'r M5 (gogledd/de) a'r M4 (dwyrain)

1. Dilynwch yr arwyddion am yr M4 London. Ymunwch â'r M4 gan deithio tuag at Lundain.
2. Ar ôl tua dwy filltir ar yr M4, trowch wrth gyffordd 19 ar gyfer yr M32 Bristol.
3. Ymunwch â'r M32 gan deithio hyd ddiwedd y draffordd – bydd hyn tua pedair milltir.
4. Arhoswch yn y lôn dde a chadwch i'r dde wrth y goleuadau traffig, sydd â'r arwydd 'bus station, Clifton, hospital A&E'.
5. Wrth y gylchfan nesaf, cadwch yn y lôn ganol a chymerwch yr ail allanfa, â'r arwydd 'bus station'.
6. Parhewch ar hyd Marlborough Street drwy ddwy set o oleuadau traffig.
7. Trowch i'r dde wrth y set nesaf o oleuadau ar gyfer BRHC.

O'r M4 (gorllewin)


1. Gadewch yr M4 wrth gyffordd 19, arwydd M32 Bristol.
2. Dilynwch y cyfarwyddiadau blaenorol o gam 3.

Parcio i geir

Nid oes llawer o leoedd parcio yn yr ysbyty. Mae ychydig o leoedd parcio i'r anabl y tu allan i brif fynedfa'r ysbyty ar gyfer rhieni sydd â thrwydded parcio i'r anabl. Dangosir meysydd parcio eraill yr ysbyty ar y map ar dudalennau 14 a 15. Mae rhai meysydd parcio NCP gerllaw hefyd. Gallwch gael trwydded i'w defnyddio o fewn meysydd parcio'r ysbyty unwaith y byddwch yn BRHC. Gofynnwch i nyrs eich plentyn neu yn y brif dderbynfa (lefel 2) pan fyddwch yn cyrraedd am ragor o fanylion am y trwyddedau hyn.

Llety

Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau lle i chi aros tra bod eich plentyn yn y PICU. Unwaith eto, mae lleoedd yn brin, ond gellir ei drefnu unwaith y byddwch yn BRHC. Mae'n bosibl na fydd y llety hwn yn yr ysbyty o reidrwydd, ond yn agos iawn, yn Ronald McDonald House. Nid yw bob amser yn bosibl i ni ddarparu lle ar gyfer brodyr a chwiorydd. Mae gwybodaeth am lety a chymorth ymarferol arall ar gael o'r ystafell gwybodaeth i deuluoedd ('family information room'), ar lefel 2.





KEY

- Zone A** Bristol Royal Infirmary (BRI)
- Zone B** Bristol Royal Infirmary (BRI)
- Zone C** Bristol Heart Institute (BHI)
- Zone D** Bristol Haematology and Oncology Centre (BHOC)

You are here



Entrances



Restricted
Access
Department
Only



Free Hospital
Shuttle Bus



Park & Ride
Bus Stop



Disabled
Parking



Car Parks



Drop-Off
Area



Emergency
Department
(Accident and
Emergency)



Woodland
Walkway

Teithio gyda'ch plentyn

Gall un rhiant deithio yn yr ambiwlans gyda'u plentyn. Nod y tîm yw sicrhau proses drosglwyddo ddiogel i chi a'ch plentyn.

Eich diogelwch

Mae'n bwysig iawn eich bod yn gwrando ar unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r gyrrwr yn eu rhoi i chi yn ystod y daith.

Byddwch yn teithio ym mlaen yr ambiwlans wth ochr y gyrrwr am y daith gyfan. Rhaid i chi aros yn eich sedd gan wisgo eich gwregys diogelwch bob amser.

Ni ddylech dynnu sylw'r gyrrwr; mae angen iddo ganolbwyntio ar y ffordd a symud drwy'r traffig.

Ni ddylech adael yr ambiwlans oni bai bod y gyrrwr neu'r tîm wedi dweud wrthyh am wneud hynny.

Gall yr ambiwlans ddefnyddio goleuadau glas a seirenau os bydd angen er mwyn symud drwy'r traffig ac osgoi oedi diangen yn y daith. Gall hyn wneud y daith ychydig yn ysgytiog; os ydych fel arfer yn dioddef salwch teithio, gallai hyn ei waethygu. Yn yr achos hwn, trafodwch hyn gyda'r tîm cyn gadael.

Nid oes llawer o le yn yr ambiwlans, a rhaid cadw pob cyfarpar yn yr ambiwlans er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith ac atal niwed. O ganlyniad i hyn, dim ond un bag bach y gallwch ddod gyda chi yn yr ambiwlans.

Diogelwch eich plentyn

Bydd o leiaf dau aelod o'r tîm cludiant yn mynd gyda'ch plentyn. Fodd bynnag, efallai y bydd staff ychwanegol yn bresennol sydd o dan hyfforddiant.

Nod y tîm yw symud eich plentyn a'i holl driniaeth gofal dwys yn ddiogel. Bydd y tîm yn monitro curiad calon eich plentyn, ei bwysedd gwaed a lefel ei ocsigen yn barhaus drwy gydol y daith. Mae'r monitor yn cynnwys larymau sydd wedi'u gosod i hysbysu'r tîm o unrhyw newidiadau bach yng nghyflwr eich plentyn. Gallai'r larymau hyn ganu sawl gwaith yn ystod taith, ond byddwch yn ymwybodol y gall unrhyw ysgytiad ar yr heol achosi'r larymau i ganu hefyd.

Bydd y tîm yn ceisio eich hysbysu o unrhyw newidiadau yng nghyflwr eich plentyn drwy gydol y daith. Fodd bynnag, eu blaenoriaeth nhw yw gofalu am eich plentyn, felly os oes angen triniaeth frys arno, gwneir hyn yn gyntaf, a rhoddir esboniadau i chi ar ôl hynny.

Os bydd angen i ni wneud newidiadau i ofal eich plentyn neu os byddwn am asesu eich plentyn heb sŵn injan yr ambiwlans, byddwn yn gofyn i'r ambiwlans stopio. **Nid** yw hyn yn golygu bod cyflwr eich plentyn wedi dirywio. Ni allwn gyflawni gweithdrefnau ar gyfer eich plentyn yn ddiogel tra bod yr ambiwlans yn symud. Yn ystod taith hir, efallai y bydd angen hylifau neu gyffuriau mewnwythiennol ychwanegol ar eich plentyn.

Yn yr achosion hyn, byddwch yn amyneddgar gyda'r tîm. Byddant yn dweud wrthyh am unrhyw newidiadau a wnaed unwaith y byddant yn fodlon ar gyflwr eich plentyn.



Sylwadau ar y gwasanaeth cludiant

Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y gwasanaeth cludiant, byddem yn hoffi clywed gennych.

Cysylltwch â:

Dr Will Marriage, ymgynghorydd arweiniol cludiant

will.marriage@uhbristol.nhs.uk

Claire Perrett, nyrs arwain ar gyfer cludiant

claire.perrett2@uhbristol.nhs.uk

Nodiadau ac ymholiadau

Nodwch os byddech, am unrhyw reswm, yn gwerthfawrogi ail farn ar eich diagnosis neu driniaeth, mae perffaith hawl gennych i ofyn am hyn.

Y cam cyntaf fel arfer fyddai trafod hyn gyda'r meddyg neu glinigydd arweiniol arall sy'n gyfrifol am eich gofal.

Ysmygu yw prif achos salwch ataliadwy a marw cyn pryd.

I gael help i roi'r gorau i ysmygu cysylltwch â

Smokefree Bristol ar 0117 922 2255.

Yn ogystal â darparu gofal clinigol, mae gan ein Hymddiriedolaeth rôl bwysig ym maes ymchwil. Mae hyn yn ein galluogi i ganfod ffyrdd newydd a gwell o drin cleifion.

Pan fydd eich plentyn o dan ein gofal, efallai y byddwn yn gofyn i chi a allwn gynnwys eich plentyn mewn gwaith ymchwil. I gael rhagor o wybodaeth ewch i:

www.uhbristol.nhs.uk/research-innovation neu ffoniwch y tîm ymchwil ac arloesedd ar **0117 342 0233**.

I weld taflenni a gwybodaeth arall i gleifion ewch i'r cyfeiriad canlynol:

www.uhbristol.nhs.uk/patients-and-visitors/information-for-patients/

Switsfwrdd yr Ysbyty: 0117 923 0000

Minicom: 0117 934 9869

www.uhbristol.nhs.uk



Ar gyfer dehonglydd neu arwyddwr ffoniwch y rhif ffôn ar lythyr eich apwyntiad.

I gael y daflen hon mewn print bras, ar ffurf sain neu fformat PDF: patientleaflets@uhbristol.nhs.uk.

